| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **13 Mawrth 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru - Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â phapur gwyn Llywodraeth Cymru o'r enw Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol ("y Papur").

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'r Papur yn destun ymgynghoriad tan 28 Ebrill. Pwrpas yr adroddiad yw canfod barn y Pwyllgor ar y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur er mwyn iddynt gael eu hystyried pan fydd y Cyngor yn ystyried ei ymateb i'r ymgynghoriad. Gofynnir yn benodol am farn y Pwyllgor o ran elfennau'r Papur sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag aelodau a strwythurau democrataidd yr awdurdod.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys y Papur a sylwadau ar y materion hynny sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Cyhoeddwyd y Papur ar 3 Chwefror, 2015 gan y Gweinidog dros Wasanaethau Cyhoeddus. Cyhoeddwyd tair fersiwn o'r Papur, Ffurf Llawn, fersiwn Bob Dydd (crynodeb) a'r fersiwn Pobl Ifanc. Mae'r fersiwn Llawn ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn. Gellir gweld y ddau fersiwn arall drwy glicio ar y ddolen hon http://llyw.cymru/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?lang=cy

4.2 Mae'r Papur Gwyn yn helaeth ac yn cynnwys nifer o gynigion polisi clir, ac yn ailadrodd ymrwymiadau polisi blaenorol (fel uno, cysylltiadau â Bil Cenedlaethau'r Dyfodol ac ati) ond mae hefyd yn cynnwys nifer o gwestiynau penagored yn gofyn am farn ar opsiynau polisi.

4.3 Mae rhai o'r cynigion ac opsiynau polisi'n gymhleth, ond mae'r Papur Gwyn yn cynnig manylion cyfyngedig o ran sut y byddai cynigion yn cael eu gweithredu.

4.4 Mae’r Papur yn cynnwys naw prif bennod ac mae arolwg ymgynghori yn cyd-fynd ag o, ac mae copi ohono ynghlwm fel Atodiad 2 yr adroddiad hwn. Gofynnir i'r Pwyllgor roi ystyriaeth yn arbennig i’r bennod o'r enw “Adnewyddu Democratiaeth” gan mai dyma’r bennod sy'n ymdrin yn bennaf â materion sydd o fewn maes cyfrifoldeb y Pwyllgor.

4.5 Mae'r Papur yn amlinellu cynigion ar gyfer newidiadau i'r ffordd y cynhelir etholiadau llywodraeth leol. Mae'r Llywodraeth yn awgrymu y byddai tymhorau sefydlog o bum mlynedd ar gylched a gynlluniwyd i beidio â gwrthdaro ag etholiadau'r Cynulliad a San Steffan yn osgoi sefyllfa lle cynhelir etholiadau i gyrff gwahanol ar yr un pryd. Rhoddir ystyriaeth hefyd yn y Papur i’r posibilrwydd o gyflwyno etholiadau i gynghorau fesul cam mewn ffordd debyg i'r hyn a ddefnyddir mewn rhannau eraill o’r Deyrnas Unedig. Yr enghraifft a roddir yn y Papur yw bod hanner aelodau awdurdod yn cael eu hethol ar un flwyddyn a’r hanner arall yn y flwyddyn ganlynol. Amlinellir dadleuon o blaid ac yn erbyn y dull hwn o gynnal etholiadau yn adran 3.2 y Papur. Mae'r Llywodraeth yn awgrymu yn y Papur, er mwyn sicrhau mwy o eglurder ynghylch cysylltiadau gwleidyddol cynghorwyr ', dylai fod yn rhaid i ymgeiswyr gofnodi eu haelodaeth o blaid wleidyddol ar eu ffurflen enwebu os ydynt yn sefyll ar ran y blaid honno ai peidio. Mae'r Papur yn gofyn am farn ar y mater hwn.

4.6 Mae'r bennod hon hefyd yn nodi cynigion y Llywodraeth ar gyfer egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau Arweinydd, Aelodau'r Cabinet, Aelodau Etholedig a Phrif Weithredwr awdurdodau lleol. Mae Adran 3.3 y Papur yn ymdrin â swyddogaeth yr Arweinydd. Lle bo ymgeisydd yn sefyll i fod yn Arweinydd, mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylent gyhoeddi maniffesto ysgrifenedig a'i gyflwyno ar lafar i'r Cyngor cyn bwrw ymlaen i ethol Arweinydd. Yna dylai'r Arweinydd gyflwyno datganiad blynyddol yn amlinellu’r materion a wynebwyd gan y Cyngor a'r camau mae’r Arweinydd wedi eu cymryd yn bersonol i ddileu perfformiad gwael neu i weithredu lle mae hyn wedi digwydd.

4.7 Mae'r Papur yn cynnig y dylai fod yna ofyniad cyfreithiol i'r Arweinydd amlinellu amcanion ar gyfer Aelodau'r Cabinet, i'w gwneud yn atebol am gynnydd ar yr amcanion bob blwyddyn, ac i gyhoeddi’r dogfennau hynny. Dylai'r Arweinydd hefyd osod amcanion ar gyfer y Prif Weithredwr, asesu perfformiad y Prif Weithredwr bob blwyddyn ac adrodd arno i'r Cyngor. Bydd hefyd rhaid rhoi sylw dyledus i gydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddewis Aelodau'r Cabinet. Os na allant ddewis Cabinet sy’n gytbwys ar sail amrywiaeth a chydraddoldeb dylent roi ystyriaeth o ddifrif i gyfethol Aelodau ychwanegol heb hawl i bleidleisio i’r Cabinet fel ymgynghorwyr.

4.8 Mae adran 3.4 yn ymdrin â swyddogaethau Aelodau'r Cabinet. Mae'r Llywodraeth yn awgrymu, er bod nifer yr uwch reolwyr wedi bod yn gostwng na fu gostyngiad ym maint y Cabinet yn y rhan fwyaf o Gynghorau. Mae'r Papur yn cynnig na ddylid ystyried pob swydd Cabinet fel rhai llawn amser ar wahân i'r Arweinydd, ac Aelodau'r Cabinet sy'n gyfrifol am Addysg a Gwasanaethau

Cymdeithasol. Mae'n awgrymu na fyddai'r un cyflog yn cael ei dalu ar gyfer swyddi eraill y Cabinet.

4.9 Mae adran 3.5 yn ymdrin â swyddogaethau Aelodau Etholedig. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu rhoi eglurhad o'r hyn sydd i'w ddisgwyl gan Aelod Etholedig. Dylai pob un ohonynt fod ar gael i'r cyhoedd drwy e-bost a chyfryngau cymdeithasol. Byddai hyfforddiant i aelodau yn orfodol mewn rhai meysydd ac amlinellir enghreifftiau o hyn yn y Papur. Mae'r Llywodraeth yn awgrymu y dylai fod yn rhaid i Aelodau Etholedig gyhoeddi Adroddiadau Blynyddol ac y dylai'r rhain ddangos yr hyn maent wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a sut mae cymunedau yn well eu byd o ganlyniad i'w gwaith.

4.10 Mae'r Papur yn awgrymu y dylai fod gan y Pwyllgorau Safonau y grym i ystyried achosion lle mae pryderon difrifol bod Aelod Etholedig yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau yn foddhaol, h.y. nid achosion o gamymddwyn yn unig.

4.11 Mae adran 3.6 yn ymdrin ag amrywiaeth ymysg Aelodau Etholedig. Fel gyda'r Cabinet, mae'r Llywodraeth hefyd yn awgrymu lle na all pwyllgorau sicrhau cydbwysedd y dylent wneud ymdrech bendant i gyfethol aelodau ychwanegol i gyflawni amrywiaeth sy'n adlewyrchu'r gymuned yn agosach. Er mwyn hyrwyddo amrywiaeth, mae'r Papur yn awgrymu y dylai fod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, ac y dylid annog cyflogwyr preifat, i ryddhau gweithwyr am nifer isafswm o ddiwrnodau di-dâl bob blwyddyn er mwyn cyflawni swyddogaethau fel Aelodau Etholedig.

4.12 Mae adran 3.7 yn ymdrin â Chydnabyddiaeth Ariannol Aelodau Etholedig. Mae'r Llywodraeth yn awgrymu bod angen i gydnabyddiaeth ariannol yng Nghymru gyd-fynd yn agosach â'r symiau a dalir mewn awdurdodau o faint tebyg mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

4.13 Yn adran 3.9, cynigir y dylid gostwng nifer yr Aelodau Etholedig, nid drwy uno yn unig, ond er mwyn cyflawni cymarebau cynrychiolaeth sy'n agosach at y rhai yn Lloegr a'r Alban. Gofynnir am sylwadau hefyd ar gynnig a fyddai'n golygu y gallai Aelodau Etholedig ond gwasanaethu am bum tymor ac na allai Arweinwyr ac Aelodau Cabinet wasanaethu yn y swyddi am fwy na dau dymor. Mae Adran 3.11 yn croesawu safbwyntiau ynghylch a ddylai Aelodau Etholedig fod yn agored i gael eu galw yn ôl os, er enghraifft eu bod wedi eu cosbi am dorri'r Cod Ymddygiad neu am beidio cyflawni eu swydd yn effeithiol.

4.14 Yn adran 3.12 mae'r Llywodraeth yn gofyn am sylwadau ynghylch a ddylid gwahardd Aelodau Etholedig mewn Llywodraeth Leol am weithredu fel Aelod Cynulliad ar yr un pryd, ac a ddylid eu gwahardd rhag gwasanaethu ar Gynghorau Cymuned ar yr un pryd. Gofynnir hefyd am sylwadau ynghylch a ddylai gweithwyr Cyngor allu sefyll i gael eu hethol i'r Cyngor hwnnw, a'i bod ond yn ofynnol iddynt ymddiswyddo o'u swydd os ydynt yn cael eu hethol.

4.15 Mae Adran 3.13 yn ymdrin â swyddogaeth y Prif Weithredwr. Mae'n awgrymu y dylid cael pum dyletswydd penodol ar gyfer y swydd hon ac mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr hefyd fod yn Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig. Awgrymir hefyd

y dylid naill ai gosod terfyn penodol ar hyd penodiad y Prif Weithredwr neu gynnal adolygiad cyn ailbenodi ar ddiwedd tymor penodol.

4.16 Mae'r Papur hefyd yn awgrymu dulliau o reoli cost uwch reolwyr yng Nghymru drwy ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau ymgynghori â'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol cyn amrywio cyflogau prif swyddogion. Mae'r Papur hefyd yn gofyn am sylwadau ar y cynnig i gael Comisiwn Penodiadau Sector Cyhoeddus. Byddai'r Comisiwn hwn naill ai'n rheoli pob penodiad i swyddi uwch mewn Llywodraeth Leol, neu fel arall yn profi cymhwysedd ymgeiswyr posibl a dim ond ymgeiswyr a gymeradwywyd fyddai'n gallu cael eu penodi i swyddi uwch.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Nid yw'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Ni fydd ymateb i'r ymgynghoriad yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Nid oes rhaid cael asesiad.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae'r Papur wedi cael ei drafod gan Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y pwyllgorau archwilio, yn enwedig o ran Pennod 8 sy'n ymdrin â materion archwilio. Bydd adroddiad ar y papur yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth ymateb i'r ymgynghoriad. Byddai angen ystyried unrhyw gynigion sy'n dod i'r amlwg ar ôl hynny naill ai drwy ddeddfwriaeth neu ganllawiau'r llywodraeth yn unigol i asesu cost a goblygiadau trefniadol..

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Y risgiau o beidio ymateb i'r ymgynghoriad yw na fydd sylwadau'r Cyngor yn cael eu hystyried wrth i'r Llywodraeth ystyried y ddeddfwriaeth a fydd yn cael ei gweithredu mewn perthynas â'r cynigion yn y Papur.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 A.111 Deddf Llywodraeth Leol 1972